**<u>Morol – Dyframaeth Aml-droffig</u>** Yn cynnwys cymysgedd o’r mathau canlynol o fagu – dyframaeth pysgod esgyll morol, dyframaeth pysgod cregyn morol, dyframaeth algâu macro morol

| Y caniatâd sydd ei angen | Cylch gwaith Rheoleiddio / Awdurdodi | Rheoleiddiwr | Cysylltiadau |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Forol**<br><br>*Os yw prosiect yn cynnwys pysgod esgyll, mae hynny’n weithgaredd trwyddedadwy ac nid yw’r eithriedig.*<br><br>*Mae’n berthnasol i ddatblygiadau o'r penllanw cymedrig mawr allan hyd at 200 milltir forol.*<br><br>*Codir tâl.*<br><br>*Amser targed* = 4 mis os bydd angen trwydded* | Trwyddedu gweithgareddau morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009).<br><br>Dylai’r ymgeisydd gysylltu â Thîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru i gael rhagor o wybodaeth ynghylch gofynion Trwydded Forol ar gyfer y datblygiad.<br><br>Efallai bod angen Asesiad Effaith Amgylcheddol, Asesiad Risg Cynefinoedd, Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Asesiad Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.** | Cyfoeth Naturiol Cymru | 0300 065 3000<br><br>marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/marine-licensing/?lang=cy<br><br>Yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau<br>navigationsafety@mcga.gov.uk<br>Neu infoline@mcga.gov.uk<br><br>Trinity House: navigation.directorate@thls.org |
| **Prydles Gwely’r Môr Ystâd y Goron**<br><br>*Dim tâl ymgeisio*<br><br>*Codir rhent blynyddol*<br><br>*Amser targed* = Heb oedi rhesymol* | Nid oes gan Ystâd y Goron swyddogaeth reolaethol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen prydles gwely’r môr a gellir ymgeisio amdani unrhyw adeg. Os nad yw trwydded forol wedi'i chaniatau eto, efallai y gellir cael opsiwn yn hytrach na phrydles lawn.<br><br>Er nad yw Ystâd y Goron yn rheoleiddiwr, y mae’n awdurdod cymwys ac efallai y bydd angen cynnal Asesiad Risg Cynefin<br><br>Os nad Ystâd y Goron yw’r tirfeddiannwr (rhai mannau ar y glannau a thiroedd awdurdodau harbwr) bydd yn rhaid cysylltu â'r sefydliad perthnasol.<br><br>Efallai y bydd angen ystyried hefyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. | Ystâd y Goron neu dirfeddiannwr arall | Prydlesi Dyframaeth<br>020 7851 5090<br><br>Charlene.McPake@thecrownestate.co.uk<br><br>http://www.thecrownestate.co.uk/rural-and-coastal/coastal/downloads/ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cais am Orchymyn Pysgodfa Unigol**<br>*Nid yw'r rhain yn fandadol, ond bydd yn rhoi sicrwydd daliadaeth ac, i ryw raddau, amddiffyniad dan y gyfraith i stoc ymgeiswyr llwyddiannus.*<br><br>*Mae'n ymestyn allan i 6 milltir forol.*<br><br>*Gall y broses o ymgeisio a chyflwyno fod yn un hir oherwydd bod yn rhaid i Orchmynion ddilyn y broses Seneddol.* | Bydd caniatáu Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn rhoi hawl unigryw i ymgeisydd ar ardal benodol o wely'r môr ar gyfer un neu ragor o rywogaethau pysgod cregyn a enwir. Cyflwynir Gorchmynion Pysgodfa Unigol o dan Ddeddf Pysgodfeydd Mor (Pysgod Cregyn) 1967 fel y'i diwygiwyd.<br><br>Llywodraeth Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am gyflwyno Gorchmynion, hi yw'r awdurdod cymwys ac efallai y bydd yn rhaid cynnal Asesiad Risg Cynefin<br><br>Efallai y bydd angen ystyried hefyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. | Llywodraeth Cymru | marineandfisheries@gov.wales<br><br>0300 025 2454<br><br>https://llyw.cymru/pysgodfeydd-cregyn-gorchmynion-pysgodfeydd-unigol-gorchmynion-rheoleiddio<br>Gall yr Arolygaeth Iechyd Pysgod hefyd roi cyngor ar Orchmynion Pysgodfa Unigol.<br>fhi@cefas.co.uk |
| **Arolygon Glanweithdra**<br>*Mae eu hangen ar gyfer nodi pwyntiau samplo addas ar gyfer monitro dosbarthiad pysgod cregyn (gweler isod)* | Casgliad o dasgau sy'n cael eu galw'n 'arolygon glanweithdra' i nodi ffynonellau llygredd mewn ardaloedd cynaeafu a chludo pysgod cregyn a pharatoi cynllun samplo yn unol â Rheoliad Cyngor Ewrop 854/2004 | Yr Awdurdod Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys.<br><br>Mae'r arolygon eu hunain yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol ac asiantaethau cyfrifol eraill yn ôl eu haddasrwydd. | Food.Policy.Wales@food.gov.uk<br><br>http://www.food.gov.uk/enforcement/monitoring/shellfish/ssurveys |
| **Dosbarthiadau Pysgod Cregyn**<br>*Mae awdurdodau iechyd lleol yn samplo dŵr a physgod cregyn i wneud yn siŵr fod yn y cynnyrch terfynol yn fwyd diogel.* | Dosbarthu ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn o dan Reoliad 854/2004 Cyngor Ewrop<br><br>*Mae'n rhaid i bob pysgod cregyn sy'n fwyd i bobl darddu o ddyfroedd wedi'u dosbarthu ac mae'n rhaid i'r pysgod cregyn gyfarfod â safonau microbiolegol gofynnol i fod yn addas fel bwyd i bobl. Mae'n rhaid i gynnyrch terfynol cynhyrchwyr pysgod cregyn gyfarfod â rhai safonau.* | Yr Awdurdod Safonau Bwyd yw'r Awdurdod Cymwys ac mae'n penderfynu ar ddosbarthiad pob gwely pysgod cregyn | Food.Policy.Wales@food.gov.uk<br><br>http://www.food.gov.uk/enforcement/monitoring/shellfish/shellharvestareas |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am samplo rheolaethol swyddogol | |
| **Monitro Biowenwyn**<br><br>*Mae'n rhaid asesu pob ardal cynaeafu pysgod cregyn ar gyfer presenoldeb rhywogaethau niweidiol o algâu* | Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod sy'n monitro am biowenwynau er mwyn sicrhau fod pysgod cregyn sy'n cael eu cynaeafu yn cyrraedd rhai safonau a heb beryglu iechyd pobl. Mae Rheoliad 854/2004 Cyngor Ewrop yn gofyn am fonitro.<br><br>*Mae Canolfan Gwyddor Amgylchedd Pysgodfeydd a Dyframaeth (CEFAS) (yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod) yn monitro ffytoplancton fel rhan o fonitro ar gyfer biowenwyn.* | Yr Awdurdod Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys canolog ac mae'n cydlynu ac yn ariannu'r profi.<br><br>Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am samplo rheolaethol swyddogol. | shellfishtoxins@foodstandards.gsi.gov.uk<br><br>020 7276 8046 |
| **Trwyddedau Gollwng**<br><br>*Codir Tâl*<br><br>*Amser targed* = hyd at 3 mis am gais llawn oherwydd y newidiadau i ddefnydd a symiau eithriedig o Ionawr 2018.* | Echdyniadau a Gollyngiadau o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010<br><br>Efallai y bydd gofyn cael Asesiad Effeithiau Amgylcheddol, Asesiad Risg Cynefinoedd ac o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. | Cyfoeth Naturiol Cymru | 0300 065 3000<br><br>permitreceiptcentre@naturalresourceswales.gov.uk<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/?lang=cy |
| **Awdurdod i weithredu Busnes Cynhyrchu Dyframaeth**<br><br>*(Efallai y gellir cael awdurdod mewn egwyddor cyn y bydd y busnes cynhyrchu dyframaeth wedi'i sefydlu)*<br><br>*Dim tâl* | Awdurdodi busnesau cynhyrchu dyframaeth o dan Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009, ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'r broses.<br><br>Mae'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn gorff rheoleididol o dan y cyfarwyddebau cadwraeth natur, efallai y bydd hefyd angen Asesiad Risg Cynefinoedd. | Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod | 01305 206700<br><br>fhi@cefas.co.uk<br><br>https://www.gov.uk/fish-and-shellfish-farm-authorisation-and-registration |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Amser targed* = 90 diwrnod gan gynnwys ymgynghori* | *D.S. Efallai y bydd yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn gallu trin ceisiadau am awdurdod ar gyfer Busnes Cynhyrchu Dyframaeth a Mewnforio a Thrwyddedu rhywogaethau Estron fel un cais.* | | |
| **Trwydded Cadw Cimychiaid**<br><br>*(Dim ond os yw cimychiaid Ewropeaidd i'w cadw gyda chimychiaid Americanaidd a bod y storfa o fewn 1 filltir i ddyfroedd y llanw y mae angen trwydded).*<br><br>*Dim tâl*<br><br>*Amser targed* = 15 – 90 diwrnod* | Gorchymyn Cimychiaid (Rheoli Cadw) 1981<br><br>Awdurdod cymwys o dan y cyfarwyddebau cadwraeth natur, mae amodau'r drwydded yn golygu nad oes angen Asesiad Risg Cynefin.<br><br>*D.S. Efallai y bydd yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn gallu trin ceisiadau am awdurdod ar gyfer Busnes Cynhyrchu Dyframaeth a Mewnforio a Thrwyddedu rhywogaethau Estron fel un cais.* | Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod | 01305 206700<br><br>fhi@cefas.co.uk<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/application-to-deposit-lobsters-form-fis9 |
| **Awdurdodi mewnforio da byw**<br>*Mae angen hyn os bydd y stoc hadau'n dod o unrhyw le y tu allan i Gymru, Lloegr neu'r Alban.*<br><br>*Dim tâl*<br><br>*Amser targed* = 15 – 90 diwrnod* | Awdurdodi mewnforio da byw ar gyfer dyframaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu wledydd y trydydd byd o dan Gyfarwyddeb Iechyd Anifeiliaid Dyfrol 2006/88.<br><br>*D.S. Efallai y bydd yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn gallu trin ceisiadau am awdurdod ar gyfer Busnes Cynhyrchu Dyframaeth a Mewnforio a Thrwyddedu rhywogaethau Estron fel un cais.* | Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod | 01305 206700<br><br>fhi@cefas.co.uk<br><br>https://www.gov.uk/import-or-export-live-fish-and-shellfish |
| **Trwyddedu ffermio rhywogaethau estron.**<br><br>*Dim tâl gweinyddol ond efallai y bydd yn rhaid cynnal asesiad risg pe byddai'n debyg o achosi newid mawr i ddiwydiant.*<br><br>*Amser targed* = 15 – 90 diwrnod* | Trwyddedu o dan Reoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy'n absennol yn lleol mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) 2011.<br><br>*D.S. Efallai y bydd yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn gallu trin ceisiadau am awdurdod ar gyfer Busnes Cynhyrchu Dyframaeth a Mewnforio a Thrwyddedu rhywogaethau Estron fel un cais.* | Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod | 01305 206700<br><br>fhi@cefas.co.uk<br><br>https://www.gov.uk/introduce-or-keep-non-native-fish-and-shellfish |
| **Cymeradwyaeth i gynhyrchu Bwyd â moddion** | Cyfarwyddeb Cyngor Ewrop 90/167 yn gosod amodau ar gyfer paratoi, gosod ar y farchnad a defnyddio bwydydd meddyginiaethol. | Y Gyfarwyddiaeth Moddion Milfeddygol | 01932 336911<br><br>inspections@vmd.defra.gsi.gov.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Mae gofyn cael hyn pan fydd moddion milfeddygol yn cael eu cymysgu i, neu ar, fwyd i'w fwydo i bysgod y ffermwr ei hunan.*<br><br>*Codir tâl, caniatâd amodol ar gael*<br>*Amser targed = 10 diwrnod gwaith i ddilysu'r cais + 30 diwrnod gwaith ar gyfer archwiliad ar safle ar gyfer cymeradwyaeth.* | Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd (Cyngor Ewrop) Rhif 183/2005 yn gosod y gofynion ar gyfer hylendid bwyd. Diogelu iechyd anifeiliaid, iechyd pobl a'r amgylchedd<br><br>Mae'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn cynnal archwiliadau ar ran Gyfarwyddiaeth Moddion Milfeddygol. | *Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod* | https://www.gov.uk/government/organisations/veterinary-medicines-directorate<br><br>https://www.gov.uk/guidance/manufacturing-and-supplying-veterinary-medicines-for-animal-feed |
| **Lles ar Ffermydd** | Daw lles ar ffermydd pysgod o dan Gyfarwyddeb Cyngor Ewrop 98/58/EC a hefyd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Diffinnir lles wrth ladd yn Rheoliad Cyngor Ewrop Rhif 1099/2009 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei weithredu yng Nghymru a Lloegr drwy'r Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Lladd) 1995. | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ac Awdurdodau Lleol | APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk<br><br>https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening<br><br>http://wlga.cymru/welsh-local-authority-links<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/fawc-advice-on-farmed-fish-welfare |
| **Awdurdodi cludydd**<br><br><br>**Tystysgrifau Cludo Anifeiliaid (ATC)**<br>(Gall tystysgrifau cludo anifeiliaid gael eu cynnwys mewn cofnodion yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod) | Lles wrth Gludo<br><br>Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cymru) 2007<br><br>Mae'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn cynnal archwiliadau ar ran yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) | Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion<br><br>*Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod* | 0300 303 8268<br><br>APHA.CymruWales@apha.gsi.gov.uk<br><br>https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening |
| **Gwaredu'r meirw** | Daw gwaredu pysgod marw o dan Reoliad Cyngor Ewrop 1069/2009 ar sgil gynnyrch anifeiliaid. Diffinnir pysgod sydd wedi marw o afiechyd fel deunydd Categori II, y mae'n rhaid ei waredu yn unol ag Erthygl 13 o Reoliad 1069/2009 Cyngor Ewrop. | Rheoleiddio trwy'r awdurdodau lleol | http://wlga.cymru/welsh-local-authority-links |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod yn rheoli pysgod marw os yw'r eiddo yn cael ei reoli ar gyfer presenoldeb afiechyd hysbysadwy. Fel arall, cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw hynny. | Yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod | 01305 206700<br><br>fhi@cefas.co.uk |
| **Iechyd Planhigion**<br><br>*Mae'n rhaid i weithredwyr masnachol gofrestru gyda'u Swyddfa Arolygiaeth Iechyd Planhigion lleol*<br><br>*Mae'n rhaid i fewnforwyr gofrestru gyda'r Arolygiaeth Marchnata Garddwriaeth (HMI)*<br><br>*Efallai y codir ffioedd ar gyfer archwiliadau mewnforio ac allforio.* | Mae'r Arolygiaeth Marchnata Garddwriaeth yn gofyn i fewnforwyr gofrestru i ddefnyddio PEACH (gweithdrefn ar gyfer ymgeisio'n electronig am dystysgrifau oddi wrth yr Arolygiaeth Marchnata Garddwriaeth).<br><br>Mae'n rhaid i weithredwyr masnachol gofrestru gyda'u Swyddfa Arolygiaeth Iechyd Planhigion lleol. | Mae'r Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau (PHSI) yn rhan o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)<br><br>Arolygiaeth Marchnata Garddwriaeth (HMI) | https://www.gov.uk/plant-health-controls<br><br>http://ehmipeach.defra.gov.uk/<br><br>https://www.gov.uk/government/organisations/animal-and-plant-health-agency/about/access-and-opening |

* Dangosol yw'r amserau targed ac efallai y bydd ystyriaethau cymhleth yn cymryd yn hirach.

** EIA = *Environmental impact assessment*, Asesiad Effeithiau Amgylcheddol HRA = *Habitats risk assessment*, Asesiad Risg Cynefinoedd, WFD = *Water framework directive assessment*, Asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, WCA = *Wildlife and countryside act assessment*, Asesiad Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

| Asesiadau y gellid bod eu hangen fel rhan o ganiatâd cynllunio neu ganiatâd arall. Cysylltwch â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol a / neu Cyfoeth Naturiol Cymru i gael cadarnhad a ydych angen asesiadau o'r fath. | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o asesiad** | **Deddfwriaeth** | **Awdurdod Cymwys*** | **Manylion cyswllt** |
| Asesiad Effeithiau Amgylcheddol | Mae Rheoliadau Gwaith Morol (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) 2017 fel y'i diwygiwyd yn gofyn i geisiadau i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded forol gael eu sgrinio yn erbyn ei Anecs II i weld a fydd angen Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (yn bennaf adrannau 1 (f) a (g)). | Cyfoeth Naturiol Cymru | 0300 065 3000<br><br>marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/marine-licensing/environmental-impact-assessment/?lang=cy |
| Asesiadau Risg Cynefinoedd (HRA) | Bydd unrhyw gais am waith o fewn neu ger safle Ewropeaidd neu RAMSAR yn dod o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Bydd awdurdodau cymwys / cyrff rheoleiddio yn cynnal Asesiad Risg Cynefinoedd (HRA) yn ôl y gofyn.<br><br>Bydd y broses asesu, os bydd angen, yn cynnwys casglu data a gallai'r ymgeisydd fod yn gyfrifol am hynny. | Cyfoeth Naturiol Cymru (Awdurdod cymwys allweddol, gallai fod yna nifer o rai eraill fel y gwelir o'r tabl uchod) | 0300 065 3000<br><br>marinelicensing@naturalresourceswales.gov.uk<br><br>http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/marine-licensing/habitats-regulations-assessment/?lang=cy |
| Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) | Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ôl y gofyn fel rhan o drwyddedu morol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) a Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003. | Cyfoeth Naturiol Cymru | http://naturalresourceswales.gov.uk/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-quality/improving-water-quality/?lang=cy |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (WCA) 1981 asesiad ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | Os yw eich cynnig o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol arbennig (a gallai dyframaethu arfordirol fod), dylech ymgynghori gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch goblygiadau tebygol Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad ar eich datblygiad yn gynnar y broses ymgeisio. | Cyfoeth Naturiol Cymru, y tirfeddiannwr neu'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod | http://naturalresourceswales.gov.uk/permits-and-permissions/protected-species-licensing/uk-protected-species-licensing/information-on-uk-protected-species-licensing/?lang=cy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Asesiad yn erbyn is-ddeddfau pysgodfeydd lleol | Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried effeithiau'r cynnig ar is-ddeddfau pysgodfeydd lleol ac ar weithgareddau perthnasol eraill y gallai'r gwaith dyframaeth effeithio arnyn nhw. | Llywodraeth Cymru | 0300 025 2454<br><br>marineandfisheries@gov.wales |

*Cofiwch, os bydd mwy nag un awdurdod cymwys angen yr un asesiad ar gyfer caniatadau gwahanol, dylid nodi awdurdod arweiniol i gydlynu'r gwaith fel mai dim ond unwaith y bydd yn rhaid paratoi asesiad, ond gan ofalu y bydd anghenion pob caniatâd yn cael eu diwallu. Mae hyn yn rhoi llai o faich ar yr ymgeisydd ac yn llyfnhau'r broses reoleiddio.